## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (EWLOE GREEN, SIR Y FFLINT I DDOLGELLAU, GWYNEDD) (CYFYNGIADAU A GWAHARDDIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A494, neu gerllaw iddi, rhwng Ewloe Green, Sir y Fflint a Dolgellau, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gosod terfyn cyflymder o 50 mya, 40 mya, 30 mya neu 10 mya ar rannau o’r darn o gefnffordd yr A494 sy’n ymestyn o’i chyffordd â chefnffordd yr A55 wrth Gyfnewidfa Ewloe Green, Sir y Fflint, hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A470 yn Nolgellau, Gwynedd. Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

ii. gwahardd pob cerbyd, ac eithrio’r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar rannau o’r darn o gefnffordd yr A494 a ddisgrifir uchod. Caiff gwaith ei wneud, yn ôl y gofyn, mewn gwahanol leoliadau ar hyd y darn o’r gefnffordd. Dim ond am gyfnodau byr y bydd y ffordd ar gau, ac ni fydd angen unrhyw lwybrau eraill.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 5 Mawrth 2026. Disgwylir i'r cyfyngiadau a’r gwaharddiadau dros dro weithredu yn ysbeidiol o 08:00 o’r gloch ar 5 Mawrth 2026 am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Bydd hysbysiad am yr holl waith sy'n cael ei wneud yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei arddangos cyn i’r gwaith ddechrau.

Gellir gweld copi o’r Gorchymyn a’r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o’r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A494 TRUNK ROAD (EWLOE GREEN, FLINTSHIRE TO DOLGELLAU, GWYNEDD) (TEMPORARY TRAFFIC RESTRICTIONS & PROHIBITIONS) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A494 trunk road between Ewloe Green, Flintshire and Dolgellau, Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily:

i. impose a 50 mph, 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit on parts of the length of the A494 trunk road that extends from its junction with the A55 trunk road at Ewloe Green Interchange, Flintshire to its junction with the A470 trunk road at Dolgellau, Gwynedd. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

ii. prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on parts of the length of the A494 trunk road described above. Works will be undertaken, as required, at different locations along the length of the trunk road. Any closures will be for short periods of time and no alternative routes are required.

The Order comes into force on 5 March 2026. The temporary restrictions and prohibitions are expected to operate intermittently from 08:00 hours on 5 March 2026 for a maximum period of 18 months. Notice of all works being undertaken during this period will be displayed prior to their commencement.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government’s website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government